

Safonau Gosod

Cyn i ni ail-osod unrhyw eiddo, byddwn yn archwilio'r eiddo er mwyn nodi unrhyw atgyweiriadau hanfodol. Byddwn hefyd yn eich darparu gyda Thystysgrif SATC sy'n nodi cydymffurfiad yr eiddo mewn perthynas â Safon Ansawdd Tai Cymru.

1. Drysau Allanol

Byddwn yn gwirio fod pob drws allanol (gan gynnwys drysau patio/Ffrenig) yn agor a chau yn iawn a bod pob ffitiad yn gyflawn ac yn hollol weithredol.

Byddwn yn sicrhau bod pob drws mewn cyflwr da, a bod pob drws yn ddiogel a byddwn yn atgyweirio/newid lle'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys y gwydr o fewn ffrâm ddrws.

Byddwn bob amser yn newid cloeon y drysau ffrynt a chefn (gan gynnwys drysau patio/Ffrenig) heblaw bod clo addas yn yr eiddo lle bydd cyfarwyddiadau arbennig yn gymwys.

2. Nenfydau a Waliau

Byddwn yn gwirio a gwneud unrhyw atgyweiriadau sy'n angenrheidiol; serch hynny, nodwch mai cyfrifoldeb y tenantiaid yw mân ddifrod a chraciau. Bydd mân graciau neu graciau tenau yn cael eu hystyried fel rhan o'r grant addurno.

3. Ffenestri

Lle mae'n bosib, byddwn yn gwirio nad oes unrhyw wydr wedi torri, fod pob ffenest yn agor a chau yn iawn. Bydd gan bob ystafell un allwedd ar gyfer ffenestri â chloeon allwedd.

4. Lloriau/Grisiau

Byddwn yn gwirio pob llawr concrit/llechfaen/asffalt, estyll lle'n weladwy, teils llawr a grisiau, ac yna atgyweirio neu newid lle bod angen.

Gall carped neu orchudd llawr cyn-denant gael ei adael yn ei le gan ddibynnu ar gyflwr penodol.

Byddwn yn gwirio grisiau ar gyfer grisiau rheiliau llaw a balwstradau llac neu doredig ac yn atgyweirio/newid lle bod angen.

5. Drysau Mewnol

Byddwn yn gwirio pob drws mewnol er mwyn sicrhau nad ydynt wedi'u difrodi, eu bod nhw'n agor ac yn cau yn iawn a bod eu holl ffitiadau yn hollol weithredol.

Byddwn yn gwirio bod pob ffrâm ddrws ac architrafau yn gyfan ac mewn cyflwr da, a lle'n briodol, byddwn yn gosod atalwyr drysau er mwyn rhwystro drysau rhag difrodi waliau/rheiddiaduron.

6. Y Gegin

Byddwn yn sicrhau fod y gegin wedi ei osod yn llawn, yn weithredol ac yn gweithio'n dda. Lle'n bosib mi fydd gwagle ar gyfer peiriant golchi, ffwrn a rhewgell ac oergell.

Byddwn yn gwirio'r holl deils am ddiffygion/difrod, gwaith pibell am ollyngiadau ac yn sicrhau bod pob tap yn gweithio.

Byddwn yn anelu i ddarparu'r ddarpariaeth leiaf canlynol yn amodol ar wagle ddigonol:

1. Arwyneb y sinc yn ogystal ag uned ddwbl
2. x 2 uned ddwbl (unedau wal neu fas)
3. Cefnwrdd teils ac arwyneb gwaith i'r unedau bas
4. Tapiâu peiriant golchi

Bydd holl unedau'r gegin yn cyd-fynd.

Lle bod ffan echdynnu wedi ei osod byddwn yn sicrhau ei fod yn lân ac yn glir o unrhyw ddwst, saim ac yn gweithio'n iawn.

• Ffynhonnell Tanwydd - Coginio

Mewn achosion lle mae ffynhonnell coginio nwy a thrydan yn bresennol yn barod, bydd y ddau yn cael eu profi a'u cynnal gan y Cyngor.

Lle mae ond un ffynhonnell tanwydd ar gyfer coginio yn bodoli, bydd yr ail ffynhonnell yn cael ei osod lle'n ymarferol. Yr eithriad i hyn fydd pan dim ond ychydig o waith neu dim gwaith sy'n ofynnol i'r gegin ac mae'r ffynhonnell tanwydd presennol yn addas ar gyfer y tenant nesaf. Nodwch dim ond ffynhonnell goginio drydanol fydd yn cael ei chaniatáu a'i darparu mewn cynllun tai lloches o dan un to.

• Pwyntiau Pŵer

Byddwn yn anelu i ddarparu x 3 soced dwbl uwchben arwynebau gwaith a x 2 polyn sengl o dan yr arwynebau gwaith ar gyfer offer yn y gegin fel darpariaeth lleiafswm lle mae'n ymarferol.

7. Ystafell Ymolchi

Byddwn yn sicrhau bod ystafelloedd ymolchi mewn cyflwr da.

Byddwn yn gwirio:

- yr holl bibwaith am ollyngiadau, gan gynnwys gorlifoedd a sicrhau fod pob tap yn gweithio.
- bod pob baddon, llawr cawod a sinc mewn cyflwr da, heb eu difrodi, bod plygiau ganddynt (nid mewn cawodydd) a bod seliau a theils wal yn gyfan.
- bod y tai bach yn fflysio ac nad oes gollyngiadau o sestonau na phedyll.
- bod ffaniau echdynnu yn lân ac yn glir o unrhyw ddwst, saim ac yn gweithio'n iawn.

8. Gwasanaethau

• Nwy/Trydan/Tanwydd Solet

Mae nifer o'n heiddo gwag yn cael eu cyflenwi gan SSE ar gyfer nwy a thrydan. Os ydych yn dymuno gallwn cyflenwi SSE gyda'ch enw a'ch manylion cyswllt, fel y gallant osod cyfrifon ynni ar eich cyfer er mwyn i chi ddechrau cyn gynted ag rydych yn symud i mewn. Serch hynny, does dim angen i chi aros gyda nhw a gallech newid yn syth os ydych yn dymuno.

Pan rydych yn symud i mewn, bydd angen i chi gysylltu â SSE ar 0345 076 0486 i gofrestru eich cyfrif newydd ac i ddarparu darlleniadau'r mesurydd agoriadol o'r diwrnod y gwnaethoch gymryd drosodd. Bydd hyn yn eu caniatáu anfon bil cyntaf cywir. Bydd dal angen i chi gysylltu â SSE hyd yn oed os ydych chi'n dymuno newid cyflenwr neu i drafod opsiynau tariff eraill. Nodwch, gall gymryd hyd at 15 diwrnod i'r cyflenwr i newid. Os ydych yn penderfynu newid cyflenwr, ni fydd SSE yn codi am eich tâl gadael, byddwch ond yn talu am y nwy a'r trydan rydych wedi'i ddefnyddio.

Pan rydych yn symud i mewn i'ch cartref cyngor newydd, bydd y cyflenwad nwy yn cael ei 'rewi' - a'i ddiffodd am resymau diogelwch - a bydd unrhyw system wresogi ganolog nwy yn cael ei ddiffodd. Ar ôl i chi gysylltu â'ch cyflenwr nwy, bydd angen i chi gysylltu â ni pan fydddech eisiau cyflenwad nwy wedi ei ail-gychwyn a'r system wedi ei brofi (mae angen 24 awr o rybudd arnom i wneud hyn). Rydym yn sicrhau fod y nwy a'r systemau trydanol ym mhob un o'n heiddo yn cael eu profi am ddiogelwch.

• Larymau Mwg a Synwryddion Carbon Monocsid, Synhwryddion Gwresogi

Byddwn yn gwirio fod pob larwm mwg gwifredig trydanol, synwryddion carbon monocsid a synwryddion gwresogi wedi eu gosod, ac yn gweithio'n iawn.

• Dŵr

Yn gyffredinol bydd pob eiddo gwag yn cael eu gwacau (Domestig a Gwresogi) rhwng misoedd y gaeaf, sef mis Hydref i fis Mawrth. Pan mae'r eiddo yn cael ei ail-osod, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gyda'r tenant presennol i lenwi'r system.

9. Clirio a Glanhau Eiddo

Byddwn yn clirio'r eiddo, adeiladau allanol a gwagle to o holl eiddo personol a chelfi, gan gynnwys y gorchuddion llawr i gyd sydd wedi cael eu gadael gan y tenant blaenorol, oni bai ei fod mewn cyflwr da. Yn yr achos hwn byddwn yn rhoi'r opsiwn i chi os ydych am eu cadw, fodd bynnag eich cyfrifoldeb chi byddant yn y dyfodol.

Bydd glanhad trwyadl yn cael ei wneud yn dilyn y gweithfeydd.

Byddwn yn sicrhau bod inswleiddio'r atig yn ddigonol ac wedi'i osod yn gyfartal yng ngofod y llofft.

10. Addurniadau

Cyfrifoldeb y tenant yw addurniadau mewnol eiddo. Serch hynny, bydd lwfans addurno yn cael ei wobrwyo ar sail bob ystafell, yn amodol ar asesiad.

Os, yn dilyn asesiad bydd lwfans yn daladwy bydd gennych nifer o opsiynau i ddewis ar sut i'w dderbyn.

11. Allanol

Byddwn yn cynnal arolwg gweledol o'r bricwaith neu'r caen rendro/allanol, linteli, briciau aer, awyrellau, to, nwyddau dŵr glaw a waliau allanol yr eiddo. Bydd unrhyw atgyweiriadau yn cael eu gwneud fel sy'n angenrheidiol.

Byddwn yn gwirio fod gyliau yn glir o weddillion a bod gan yr holl yliau a siambrau archwilio gorchuddion.

Byddwn yn gwaredu unrhyw sbwriel a thorri'r gwair yn yr ardd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i waredu neu dorri coed neu lwyni sydd wedi gordyfu mewn amgylchiadau eithriadol.

Byddwn yn gwirio cyflwr ffensio/waliau gerddi, llwybrau, tramwyfeydd, llawr caled, grisiau, patios, gatiau a reiliau llaw ac yn atgyweirio/ailosod fel sy'n addas.

Bydd lloerenni ac erialau yn aros yn eu lle ond ni fyddwn yn eu profi neu'n gwarantu eu bod nhw'n gweithio'n iawn neu gymryd unrhyw gyfrifoldeb am eu cynnal a'u cadw neu eu hamnewid yn y dyfodol.

Bydd patios/decin a siediau yn cael ei gadael os ydynt mewn cyflwr da a diogel, fodd bynnag eich cyfrifoldeb chi byddant yn y dyfodol.

12. Gwelliannau neu Newidiadau Cyn Denantiaid

Os ydy'r tenant blaenorol wedi gwneud unrhyw welliannau neu newidiadau i'r eiddo, byddant yn cael eu cadw os ydynt mewn cyflwr gweithio da. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau is-safonol a wnaed gan y tenant blaenorol yn cael eu symud ymaith.

Nodwch: Gall y safon ail-osod hon fod yn amodol i newidiadau pellach ac yn ôl y gofyn a bydd hefyd yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).